

# Clecs Casnewydd



Rhifyn rhif 5  
Tymor y  
Gwanwyn 2014

## Calon Lân yn llawn daioni...



**Er iddyn ni gynnal Eisteddfod ysgol eleni wythnos cyn Dydd Gwyl Dewi, roedd y neuadd yn llawn canu a cherddi.**

Dyma oedd y diwedd perffaith i wythnos llawn gweithgareddau a straeon o Gymru a'i gorffennol diddorol. Roedd yr ysgol gyfan yn brysur yn creu, coginio, ysgrifennu, tynnu lluniau a gwrando. Coginiodd y Meithrin Caws ar Dost a gweithgareddau yn seiliedig ar stori

Cennin Palu o Bentre Bach; gweithgareddau ar y Cennyn Pedr a'r Ddraig Goch; darganfod mwy am fywyd Dewi Sant oedd gweithgareddau Blwyddyn 1; clywodd Blwyddyn 2 stori Gelert y ci ffyddlon a choginio caws ar dost; wrth aros gyda'r Rhufeiniaid, dysgodd Blwyddyn 3 am freuddwyd Macsen Wledig; clywodd Blwyddyn 4 am stori Blodeuwedd o'r Mabinogi a choginion nhw Pice ar y Mân;

clywodd Blwyddyn 5 am stori tor-calonus y Ferch o Gefn Ydfa; fe gafodd Blwyddyn 6 stori Branwen o'r Mabinogi.

Roedd yr Eisteddfod yn brynhawn diwylliannol a cherddorol iawn. Roedd hefyd yn wledig i'r llygaid gyda llysoedd Cadog, Islwyn a Llanofar - yn eu coch, melyn a gwyrdd, yn ogystal a'r nifer o grysau rygbi Cymru a'r gwisgoedd traddodiadol di-ri, roedd y neuadd yn lliwgar dros ben.

Fe berfformiodd y plant yn wych. Daeth Miss Dinah Jones o Ysgol Gyfun Gwynllyw i feirniadu y gystadleuaeth ysgrifennu blynyddol i Flwyddyn 6 - eleni roedd rhaid iddyn nhw ysgrifennu ymson y mymi Eifftaidd. Mali Edwards cipiodd y wobr gyntaf, sef y clogyn aur a'r gadair, daeth Tia Pitman yn ail ac Elys Knorz yn drydydd. Fe orffennodd y diwrnod, fel arfer, gyda fersiwn teimladwy o 'Hen Wlad fy Nhadau'. Hoffai'r staff ddiolch i'r rhieni am eu canu ardderchog i'r emyn Calon Lan. Roedd yn dda i'r enaid!

## Awn am Dro

### Meithrin

Y tymor yma rydyn ni wedi bod yn brysur yn y Meithrin yn dysgu am Chwedlau Traddodiadol. Dysgon ni stori Hansel a Gretel, Y Bachgen Bach Toes a'r Hujan Fach Goch gan ddefnyddio dull Pie Corbett a mapiau stori. Dyma ni'n esgus bod yn Hansel a Gretel yn cerdded yn y goedwig. Dysgon ni ambell lythyren ar y ffordd!



## Eirth egniol!

### Derbyn

Am dymor prysur! Cafodd y derbyn llawer o hwyl yn dysgu am Elen Benfelen a'r tri arth ac yna mynd am wybdaeth gyffroes i hela arth yn y goedwig! Fe wnaethon ni bosteri er mwyn dod o hyd i Elen Benfelen, cymharu meintiau eirth, adeiladu cadair newydd i Babi Arth a darganfod llawer o ffeithiau am eirth.

Wrth i ni hela arth aethom drwy gwair hir, nofio yn yr afon, sathru ar fwd, trwy storm eira oer, ac i mewn i ogof dywyll....."Aaaaa arth!"



## Blaidd Bendigedig

### Blwyddyn 1

Oeddech chi'n gwybod nad yw pob blaidd yn gas?

Yn ystod ein prosiect 'pethau byw' darllenon ni stori'r 'Tri Mochyn Bach!' Roedd rhaid i ni gwblhau nifer o weithgareddau hwylus megis sioe bypedau, creu stori sain i adlewyrchu teimladau a phersonoliaeth y cymeriadau a'r gadair goch. Yn ogystal â hyn fe ddarganfyddon ni fod rhai moch yn greulon ar ôl i ni ddarllen stori'r 'Tri mochyn bach cas a'r Blaidd mawr caredig!'



## Fan hyn a fan draw

### Blwyddyn 2

Yn ystod ein prosiect ymchwiliol! 'Fan hyn a fan draw' cawsom gyfle i werthfawrogi ein hardal leol. Cawsom brofiad anturus o fynd am dro ar hyd heol fferm Hartridge a chasglu amrywiaeth o dystiolaeth o'n taith, aethom ati i greu brigyn siwrnai. Yn ogystal â hyn anfonon ni gerdyn post adref i dracio'r daith ar fap o Gasnewydd.





## Rhufeiniaid Rhagorol!

Blwyddyn 3

Yn ystod y tymor hwn rydyn ni wedi bod yn dysgu am y Rhufeiniaid. Cawsom hwyl wrth gloddio am arteffactau yn yr ardal ganol. Dysgon ni lawer o wybodaeth ddiddorol am rhai ohonynt. Yna fel rhan o ddatlu'r cyfnod, cawsom ddiwrnod Rhufeinig ble gwisgodd plant blwyddyn 3 mewn togas a gwisgoedd milwrol. Roedden ni wedi cognio cennin a chaws ar dost. Cennin oedd un o'r llysiau cyflwynodd y Rhufeiniaid i Brydain.



## Arweinwyr Anhygoel

Blwyddyn 6

Rydyn ni ym mlwyddyn 6 wedi bod yn astudio arweinwyr ac anghyfiawnder yn y byd. Rydyn ni wedi astudio pobl fel Nelson Mandela, Martin Luther King, Malala Yousfzai, Rosa Parks a Gandhi. Gyda'r prosiect Winding Snake rydyn ni hefyd wedi astudio yr Arglwyddes Rhondda a oedd yn brwydro dros hawliau merched. Rydyn ni wedi ysgrifennu cofiant i Nelson Mandela, erthygl papur newydd am Rosa Parks a llythyr i Malala Yousafzai. Rydyn ni hefyd wedi dysgu am y Lakota a'r drychineb yn Wounded Knee. Mae'r thema wedi helpu ni i sylweddoli bod yna bobl yn y byd sydd yn fodlon sefyll dros hawliau eraill a brwydro am hawliau cyfartal i bawb. Rydyn ni yn mynd i ysgrifennu areithiau Saesneg gan efelychu Martin Luther King 'Mae gen i freuddwyd'. Efallai y byddwn yn perfformio ein hareithiau yn ein amffitheatr newydd. Pwy a wyr efallai bod rhai arweinwyr y dyfodol ym mlwyddyn 6!



**WINDING  
SNAKE**



## Dirgelwch y Goedwig

Blwyddyn 4

Yn ystod y tymor yma rydyn ni wedi dysgu am y creaduriaid syn byw yn y goedwig. Astudion ni ystlumod a chreu naratif i ffilmiau natur. Rydyn ni hefyd wedi dysgu am Serenola, ystlum bach coll a oedd wedi cwmpo mewn i nyth aderyn. Trafodion ni'r gwahaniaethau rhwng ystlumod ac adar a sut i edrych ar ôl ystlum coll. Pan rhoddwyd posteri o amgylch yr iard gan y fam, fe greon ni ein posteri ein hun i'w hepu hi. Rydyn ni hefyd wedi astudio malwod, pry cop, tylluanod a gwahanol adar yr ardd a gwneud archwiliad o adar yr ardd ar gyfer data yr RSPB.



## Arwyr Ardderchog

Blwyddyn 5

Ai adar? Ai awyren? Na... plant blwyddyn 5!!! Y tymor yma dysgon ni am rinweddau Arwyr Ardderchog a chafon ni ddiwrnod arbennig yn dyfeisio Arwyr personol. Roedd gan y plant lawer o syniadau arbennig gan gynnwys Disco Girl a Keeper of Time. Yn ogystal â chael hwyl yn gwisgo fel arwr, darllenon ni y stori bendigedig am SpringHeeled Jack, sef arwr tywyll oedd yn dwyn lleisiau plant drwg yn Oes Victoria. Yn ystod ein gwrs ymarfer corff roedd rhaid i'r plant achub y dydd gan geisio darganfod ogof Spring Heeled Jack a chasglu'r lleisiau yn ôl. Yn bwysicaf roedd rhaid i'r plant greu rheolau er mwyn dangos i Spring Heeled Jack sut dylai Arwr ymddwyn. Wedi i'r arwyr anhygoel hyn lwyddo i gwblhau sawl her anodd, rydyn ni nawr yn gallu cysgu yn dawel yn ein gwelyau.



# Caru Celf!



Mae'r disgyblion Mwy abl a Thalentog o ran Celf wedi bod yn brysur yn paratoi r gyfer cystadleuthau'r Eisteddfod. Maent yn creu darnau o waith yn seiliedig ar y testun 'Rhyfeddodau'. Mae rhieni, staff a disgyblion wedi bod yn cynllunio, creu, paentio, gwnïo a llawer mwy. Pob lwc i bawb yn y cystadleuaeth sydd i ddod. Diolch i bawb sydd wedi helpu: Miss Davies (BI4), Miss Pugh, Mrs Phillips, Mrs Evans (Meithrin), Mrs Ella Edwards, Mrs Rachel Morgan, Ms Beth Davies, Mrs Michelle Hobbis., Mrs Alice Butler-Bright, Miss Sneddon, Miss Cutts, Ms Sally-Ann Mellor, Mrs Mandy Evans, Miss Davies (BI3).



# Eisteddfod



Yn yr Eisteddfod Gylch fe cystadlodd llawer o'n disgyblion mewn nifer o gystadleuthau: Florence Ledley a Caitlin Sykes (unawd canu o dan 7); Euan Radfford a Sorel Butler-Bright (llefaru unigol o dan 7); Rhianwen Lewis a Freya Barret (unawd canu o dan 9); Ceirios Bebb a Jemima Bradshaw, (llefaru unigol o dan 9); Eleri Marshall ac Evie Campbell (alaw werin); Tom Rist a Caitlyn James (unawd canu o dan 11); Owain Jones and Evie Campbell (unawd llefaru o dan 11); Ymson: Letisha Hughes, Harrison Kembrey, Seren Howells a Ben Gibbons; Grwp Llefaru: Letisha Hughes, Harrison Kembrey, Ben Gibbons, Morgana Davies, Owain Jones, Mali Edwards, Shyana Fleming. Fe cawsom lwyddiant yn yr unawd o dan 11 (Caitlyn James - 2<sup>ail</sup>), Ymson (2<sup>ail</sup>); alaw werin (Evie Campbell - 2<sup>ail</sup>). Fe aethon nhw i'r Eisteddfod Sir ar 29<sup>ain</sup> o Fawrth. Yn cystadlu gyda nhw yn y Sir oedd y grwp dawnsio disgo: Tegan Matthews, Molly Donovan, Phoebe Doran, Elinor Hardwidge, Jasmine Butler-Bright; yr unawd dawnsio disgo: Seren Howells ac Evie Campbell a'r côr. **DIOLCH ENFAWR** i'r plant a'r aelodau staff sydd wedi bod yn ymarfer yn galed yn ystod amser chwarae, amser cinio ac ar ôl ysgol am wythnosau: Miss Williams (derbyn), Miss Davies (BI 2), Miss Williams (BI 2), Miss Cutts, Miss Williams (BI 1), Mr Williams, Miss Lotwick, Miss Davies (BI 4), Mrs Evans (BI4), Miss Pugh, Miss Thomas, Miss Leyshon, Mrs Parry a Ms Beth Davies. Diolch yn fawr iawn i chi rhieni a wnaeth gludo eich plant i'r Eisteddfodau.





## Meddwl Mathemategol!

Cawsom fenythyg offen Techniquest am ddiwrnod er mwyn helpu meddwl a datrys problemau mathemategol Roedd llawer o hwyl yn trafod sut i weithio'r gemau a posau a chyd-weithio i ddatrys y problemau. Cawsom ymweliad hefyd oddi wrth Mr Paul Godding a weithiodd gyda Blynnyddoedd 5 a 6. Roedd y gemau yma hefyd yn datrys problemau gan ddefnyddio sgiliau meddwl, rhesymu a chyd-weithio.



## Sêr Aur am Bresenoldeb 100%!

Fe gasom ni gwasanaeth gwobrwyo yn ddiweddar. Rhoddwyd 60 tystysgrif efydd (95%) am bresenoldeb a phrydlondeb. Rhoddwyd 62 tystysgrif arian am bresenoldeb a phrydlondeb o dros 98% o'r amser; ennillodd 25 disgybl lwcus tystysgrif aur am fod yn yr ysgol bob dydd er mis Medi, a hynny erbyn 9yb - 100%!! Gwych, da iawn chi!



## Eitemau Newydd i'n tir

Er roedd ein tŷ poteli plastig dda i'r amgylchedd, roedd e wedi dechrau dirywio yn y stormydd diweddar. Nawr mae gennym ni dŷ gwyrdr newydd sbon a solid tu hwnt. Yn ychwanegol i hyn, mae amffitheatr wedi cael ei adeiladu ar iard uchaf Yr Adran Iau. Nid yn unig ydy e'n adnodd gwych i athrawon ei ddefnyddio gyda'u dosbarthiadau, ond mae Blynnyddoedd 5 a 6 wedi bod yn mwynhau perfformio yn ystod amser chwarae a chinio. Mae gan Gasnewydd dawn!



## PUMP Y DIWRNOD

Mae ein siop ffrwythau yn ffynnu! Mae'r bythefnos diwethaf wedi bod yn llwyddiannus dros ben! Mae'r cyngor ysgol wedi bod yn brysur iawn yn hysbysebu'r siop, rhedeg y busnes a sicrhau bod ein hysgol yn lle iachus tu hwnt. Dywedodd Aimee Duff "Mae gweithio yn y siop yn gwneud i mi feddwl am fy nyfodol." Ychwanegodd " Hoffwn ddweud diolch i bawb sydd wedi prynu ffrwythau a diolch i bawb sydd yn rhesi yn smart bob dydd. Rydych chi wedi helpu i wneud y siop yn llwyddiant!"



## Her y Helyg!

Roedd y Cyngor Eco yn helpu i gadw ein twnel helyg o dan reolaeth unwaith eto eleni. Cawsom nhw help gan Natalie Waller o Sir Casnewydd i dorri a siapio'r brigau. Byddwn yn cadw'r darnau torredig ar gyfer ein ffens helyg o amgylch yr ardd lysiau.



## Diwrnod y Llyfr

Unwaith eto roedd ein hysgol yn llawn Twits, Wonkas, hobbits a dewinod i ddathlu darllen a llyfrau. Cawsom lawer o hwyl wrth ddyfalu pwy oedd pwy!



## Tegwch i Bawb!

Daeth Elin Jones i wasanaeth Cyfnod Allweddol Dau i drafnod pwysigrwydd Masnach Deg. Fe gyflwynwyd Foncho - ffermwr banana o Golybia ac fe ddaeth hi â banana enfawr i sicrhau ein bod yn cofio i wenu wrth i ni brynu cynnyrch Masnach Deg o gwmpas y byd.



## BANER WERDD ARALL!

Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn brysur y tymor yma. Cafodd yr ysgol ei wobrwyo â'r trydedd Faner Werdd. Yn y dosbarth, yn y gwersi ac ar dir yr ysgol rydyn ni'n hybu dyfodol gwell gan ailgylchu, garddio, edrych ar ôl natur a dysgu am sut i fod yn ddinasyddion da. Ein her nesaf yw ennill y wobwr Platinwm!



# Cornel y Campau



## Perfformiad gwych gan y tîm pel droed.

Llwyddodd y tim pel-droed i drechu ysgol gynradd Eveswell mewn dwy gêm arbennig. Ieuan Hancock oedd chwaraewr y gêm am ei berfformiad yn y gôl.



## Tim Rygbi ar Garlam!

Enillodd y tim rygbi 20 - 15 yn erbyn Marshfeild. Roedd Oliver Sams a Callum Richards wei taclo yn arbennig o dda. Dangosodd Owain Jones a George Ovey sgiliau rhedeg a phasio gwych. Pob lwc yn nhwrnament Cwpan Ysgolion Casnewydd ar 2<sup>a</sup>il o Ebrill.



## Ardderchog yn Aberystwyth

Perfformiodd y tim gymnasteg yn arbennig o dda yng Nghystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd yn Aberystwyth. Roedd y berfformiad yn dangos llawer o gywirdeb a chyd-weithio. Da iawn Ferched!!!

## Llyfrau Llewyrchus

Daeth Mrs Parry, Miss Catrin Evans (Dirpwry Bennaeth Ysgol Cwmbbran) a Mrs Liz Jones, ein Arweinydd System i'r EAS at ei gilydd i edrych ar lyfrau ein hysgol yn ddiweddar. **Nodwyd bod marcio ac ymateb i waith y plant yn rhagorol ac yn arfer gwerth ei rhannu (gyda ysgolion eraill.) Mae safonau'r llyfrau yn rhagorol ac yn arfer gwerth ei rhannu (gyda ysgolion eraill.) Mae cyfleoedd i'r medrus a thalentog yn effeithiol iawn ac wedi'u cynllunio'n wych ar draws y cwricwlwm ym mhob dosbarth.**

Os hoffech ddarllen yr adroddiad llawn, mae ar ein wefan o dan y teitl 'Craffu ar lyfrau 2014'.

Yn ogystal â hyn, fe gyflwynodd Mrs Helen Phillips gwrs hyfforddi i athrawon ysgolion eraill yn yr EAS i ddangos arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd yr ymateb i'r cwrs yn bositif iawn.

## Gwyliau'r Pasg

**Gwybodaeth i chi.** Mae gan Magor Marsh nifer o weithgareddau yn ystod y gwyliau Pasg. There is a **Spring Fun Day** on Saturday 12<sup>th</sup> April 1 - 4 pm (£1 per child, adults are free) that includes a water vole trail, pond dipping, bird watching and a guided walk as well as crafts and using a microscope.

**Wildplay** Thursday 17<sup>th</sup> April 10 - 3pm - a holiday club with a difference for children aged 8 and over. Games, crafts, outdoor exploration and wildlife investigation (booking is essential) (£15 per child) Phone Leigh on 01600 740358 to book.

**Wildlife Warriors** - for ages 10 and over - starting on Wednesday April 30<sup>th</sup> 6:30 - 8:30 it will run every week during term time until October half term. (£12 per half term or £10 for Gwent Wildlife Trust members) Please phone Kathy on 01633 889048 or e-mail her at [magormarsh@gwentwildlife.org](mailto:magormarsh@gwentwildlife.org) for more information.

Unwaith eto, diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu haelioni yn ariannu'r cylchlythyr hwn ac am drefnu nifer o weithgareddau yn ystod y tymor. Os fyddai unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae'r ffurflenni ymaelodi ar gael yn y swyddfa.